Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Trafodaethau ynghylch ymadawiad y DU â'r UE

## Adroddiad Monitro

30 Mehefin 2020



Y Senedd a BREXIT

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7571**
E-bost: **lucy.valsamidis@Senedd.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

**© Hawlfraint Comisiwn Senedd Cymru 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Trafodaethau ynghylch ymadawiad y DU â'r UE

## Adroddiad Monitro

30 Mehefin 2020

**Awduron:**
Lucy Valsamidis, Sara Moran a Rhun Davies

Y Senedd a BREXIT

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........................................................................ 1**

Crynodeb o'r datblygiadau ........................................................................ 1

**2. Datblygiadau yn nhrafodaethau'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ........................................................................ 3**

Cyfarfod lefel uchel ........................................................................ 3

Ymestyn y cyfnod pontio ........................................................................ 3

Pwyntiau allweddol: Y Deyrnas Unedig ........................................................................ 4

Pwyntiau allweddol: Yr Undeb Ewropeaidd ........................................................................ 4

Gweithredu'r Cytundeb Ymadael ........................................................................ 6

**3. Datblygiadau yn y Deyrnas Unedig ........................................................................ 7**

Trafodaethau rhyngwladol ........................................................................ 7

Deddfwriaeth y Deyrnas Unedig ........................................................................ 8

Parodrwydd ........................................................................ 11

Cronfa Ffyniant Gyffredin ........................................................................ 12

Cysylltiadau Rhynglywodraethol ........................................................................ 12

**4. Datblygiadau yng Nghymru ........................................................................ 14**

Trafodaethau ynghylch y berthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol 14

Trafodaethau rhyngwladol ........................................................................ 14

Gweithredu'r Cytundeb Ymadael........15

Protocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon........16

Parodrwydd........16

Fframweithiau cyffredin a chytundebau rhynglywodraethol........17

Deddfwriaeth........19

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb a dadansoddiad o'r prif ddatblygiadau diweddaraf yn nhrafodaethau'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, ar lefel y Deyrnas Unedig ac yng Nghymru er 2 Mehefin.

## Crynodeb o'r datblygiadau

Cynhelir pumed rownd y **trafodaethau ynghylch perthynas y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol** rhwng 29 Mehefin a 3 Gorffennaf ym Mrwsel, a bydd rownd arall yn cael ei chynnal yr wythnos ddilynol yn Llundain. Cytunodd y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd i ddwysau'r trafodaethau drwy gydol mis Gorffennaf, gyda 'rowndiau cyfyngedig' yn canolbwyntio ar feysydd allweddol lle ceir gwahaniaethau. Y rowndiau hyn fydd y rhai wyneb yn wyneb cyntaf ers i bandemig y coronafeirws gydio. Erys gwahaniaethau sylweddol ar y ddwy ochr, gan gynnwys mewn meysydd allweddol fel pysgodfeydd, cystadleuaeth ('trin yn yr un modd'), llywodraethu, a chydweithrediad yr heddlu a'r farnwriaeth mewn materion troseddol. Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi cael hysbysiad ffurfiol gan y Deyrnas Unedig erbyn hyn na fydd yn ceisio ymestyn y cyfnod pontio wrth i ddyddiad cau 1 Gorffennaf agosáu. Mae Prif Negodwr yr Undeb Ewropeaidd, Michel Barnier, wedi cynghori y bydd angen testun cyfreithiol llawn a therfynol cyn 31 Hydref er mwyn cwblhau'r broses gadarnhau cyn 31 Rhagfyr, sef diwedd y cyfnod pontio. Yn y cyfamser, mae'r gwaith o weithredu'r Cytundeb Ymadael yn parhau, gydag ail gyfarfod Cyd-bwyllgor y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd wedi cael ei gynnal ym mis Mehefin.

**Ar lefel y Deyrnas Unedig,** dechreuodd y Llywodraeth gynnal trafodaethau masnach gyda Japan a chyhoeddwyd amcanion negodi ar gyfer cytundebau ag Awstralia a Seland Newydd. Cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai rheolaethau ffiniau ar gyfer nwyddau'r Undeb Ewropeaidd a fewnforir i Brydain yn cael eu cyflwyno fesul cam ar ddiwedd y cyfnod pontio er mwyn rhoi rhagor o amser i fusnesau yr effeithir arnynt gan y coronafeirws wneud paratoadau. Parhaodd deddfwriaeth Brexit i symud drwy'r Senedd. Ysgrifennodd cadeiryddion pwyllgorau Tŷ'r Cyffredin at Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ofyn am wybodaeth am y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

**Yng Nghymru,** ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol ar y cyd ag Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth yr Alban, Michael Russell, at Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn i nodi cyfres o alwadau am gymryd rhan yn y trafodaethau. Fe wnaethant hefyd alw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gadarnhau y bydd yn gofyn am y dewis

i weinyddiaethau datganoledig barhau i gymryd rhan yn rhaglenni'r Undeb Ewropeaidd ac i'r llif gwaith ar y cyd ar Brotocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon gael ei ddechrau ar frys. Dywedodd y Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol fod lefel yr ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar drafodaethau gyda'r Unol Daleithiau wedi bod yn 'gadarnhaol iawn' a chyhoeddodd ddatganiad yn ymateb i agor trafodaethau gyda Japan. Rhoddodd y Cwnsler Cyffredinol ddiweddariad i'r Pwyllgor ar baratoadau Llywodraeth Cymru ar gyfer diwedd y cyfnod pontio, a dywedodd nad oedd 'yn hyderus o bell ffordd' y buasai busnesau Cymru yn gallu paratoi. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol na fyddai'n bosibl cwblhau'r rhaglen fframweithiau cyffredin erbyn diwedd y cyfnod pontio, a chododd bryderon ynghylch cynlluniau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddeddfu ar farchnad fewnol y Deyrnas Unedig.

# 2. Datblygiadau yn nhrafodaethau'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd

Bydd y bumed rownd o drafodaethau yn digwydd rhwng 29 Mehefin a 3 Gorffennaf. Mae'r **agenda ar gael** ar gyfer rownd a ddisgrifir fel un 'gyfyngedig'. Mae hyn yn cyfeirio at rowndiau trafod dwysach ar feysydd allweddol lle ceir gwahaniaethau. Bydd y rownd hon yn digwydd wyneb yn wyneb ym Mrwsel, gyda **rownd arall yn Llundain yr wythnos ddilynol**. Cynhaliwyd y **bedwaredd rownd o drafodaethau** rhwng 2 a 5 Mehefin, ac ar ôl hynny cydnabu'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd na wnaed cynnydd digonol. Yn ystod y rownd, cytunwyd i neilltuo amser i'r pedwar maes lle'r oedd angen cynnydd fwyaf:

1. Pysgodfeydd
2. Cystadleuaeth rydd a theg (trin yn yr un modd)
3. Hawliau a rhyddid sylfaenol sy'n sail i gydweithrediad agos rhwng yr heddlu a'r farnwriaeth mewn materion troseddol
4. Llywodraethu'r berthynas yn y dyfodol

Ceir rhagor o fanylion am bwyntiau allweddol gan y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn adrannau 2.1 a 2.2 isod.

## Cyfarfod lefel uchel

Cynhaliwyd y cyfarfod lefel uchel a ragwelwyd yn y Datganiad Gwleidyddol ar 15 Mehefin rhwng Prif Weinidog y Deyrnas Unedig, Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd Ursula Von Der Leyen, Llywydd y Cyngor Ewropeaidd Charles Michel, a Llywydd Senedd Ewrop David Sassoli. **Cyhoeddwyd datganiad ar y cyd** rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn dilyn y cyfarfod yn nodi bod angen 'momentwm newydd' ac y byddai'r sgyrsiau'n cael eu dwysáu drwy gydol mis Gorffennaf. Yn dilyn y cyfarfod, **dywedodd** y Prif Weinidog Boris Johnson wrth y cyfryngau bod angen i'r ddwy ochr 'roi teigr yn y tanc' ac ychwanegu ychydig o 'fynd' i'r trafodaethau.

## Ymestyn y cyfnod pontio

Nododd yr Undeb Ewropeaidd yn ffurfiol benderfyniad y Deyrnas Unedig i beidio ag ymestyn y cyfnod pontio yn y **cyfarfod lefel uchel ar 15 Mehefin** ac yng **nghyd-bwyllgor y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd** ar 12 Mehefin. Cadarnhaodd yr Undeb Ewropeaidd y bydd y cyfnod pontio yn dod i ben ar 31

Rhagfyr 2020, yn unol â'r Cytundeb Ymadael. Nodwyd mewn **datganiad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig** yn dilyn cyfarfod y Cyd-bwyllgor 'na fydd rhagor o gyfleoedd i ymestyn y cyfnod pontio.' Cyn y ddau gyfarfod, roedd Prif Drafodwr yr Undeb Ewropeaidd, **Michel Barnier, wedi cynghori** bod yr Undeb Ewropeaidd bob amser wedi bod yn agored i flwyddyn neu ddwy o estyniad, a bod y 'drws yn parhau yn agored.' Ychwanegodd, os na fydd y cyfnod pontio yn cael ei ymestyn, bydd angen testun cyfreithiol llawn erbyn 31 Hydref er mwyn cwblhau'r broses gadarnhau cyn y dyddiad cau ar 31 Rhagfyr.

## Pwyntiau allweddol: Y Deyrnas Unedig

Yn dilyn y cyfarfod lefel uchel ar 15 Mehefin**, dywedodd y Prif Weinidog wrth Sky News**:

> It's very clear what the UK needs and what our EU friends, I think, need to understand. We can't have the involvement of the European Court of Justice in this country, we can't have [...] a system whereby we continue to have to obey EU law even when we're out of the EU and we've got to get a great deal for our fish. We're taking back control of our fish.

Cyn y bumed rownd o drafodaethau ar 29 Mehefin, trydarodd Prif Drafodwr y Deyrnas Unedig, David Frost, bod 'angen i hyn fod yn negodi go iawn a bydd yn rhaid i rai o safbwyntiau afrealistig yr Undeb Ewropeaidd newid os ydym am symud ymlaen.'

Ar 19 Mehefin, cyhoeddodd Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar y Berthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn y Dyfodol ei **adroddiad ar yr angen am gynnydd yn y trafodaethau**. Darparodd Prif Drafodwr yr Undeb Ewropeaidd, Michel Barnier, **dystiolaeth lafar** i'r Pwyllgor.

## Pwyntiau allweddol: Yr Undeb Ewropeaidd

Yn dilyn y bedwaredd rownd o drafodaethau, cyflwynodd Prif Drafodwr yr Undeb Ewropeaidd, Michel Barnier, **ddatganiad** lle cyfeiriodd at y meysydd a restrir uchod fel y 'pedwar pwynt anodd o bwys' ac amlinellodd y sefyllfa ddiweddaraf o ran pob maes fel a ganlyn:

1. Pysgodfeydd: ni ddangosodd y Deyrnas Unedig 'barodrwydd o ddifrif' i archwilio dulliau heblaw ymlyniad cylchfaol a thrafodaethau blynyddol, tra byddai'n well gan yr Undeb Ewropeaidd 'bartneriaeth economaidd fwy sefydlog.'
2. Trin yn yr un modd: Ni wnaed unrhyw gynnydd o ran darpariaethau trin yn yr un modd, er gwaethaf trafod meysydd 'a ddylai fod wedi bod yn fwy cydsyniol,

fel mecanweithiau nad ydynt yn atchwelyd ar safonau cymdeithasol ac amgylcheddol, newid yn yr hinsawdd, trethiant neu ddatblygu cynaliadwy.'

3. Llywodraethu: Ni wnaed unrhyw gynnydd ar y strwythur llywodraethu unigol, cyffredinol a gynigiwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.
4. Cydweithrediad yr heddlu a'r farnwriaeth mewn materion troseddol: cafwyd 'trafodaeth ychydig yn fwy adeiladol' ar gwestiwn ymrwymiad y Deyrnas Unedig i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, er bod yr Undeb Ewropeaidd yn rhybuddio bod 'cwestiynau pwysig' yn parhau i fod ynglŷn â sut i adlewyrchu hyn yn y cytundeb ynghylch y berthynas yn y dyfodol.

Ailddatganodd Michel Barnier mai'r Datganiad Gwleidyddol 'yw'r unig bwynt cyfeirio dilys, a bydd yn parhau i fod felly o'n rhan ni - yr unig gynsail perthnasol yn y drafodaeth hon, fel y cytunwyd gan y ddwy ochr.' Aeth ymlaen **i nodi enghreifftiau manwl** o sut mae ei gymheiriaid yn y Deyrnas Unedig wedi ceisio 'ymbellhau o'r sail gyffredin hon' a 'pharhau i fynd yn ôl ar eu gair' ar ymrwymiadau blaenorol a wnaed. Ychwanegodd fod y 'Deyrnas Unedig wedi gwrthod trafod ein cydweithrediad ar bolisi tramor, datblygu ac amddiffyn,' sydd yn y Datganiad Gwleidyddol. Wrth gloi, dywedodd:

> It is clear that we are approaching a moment of truth: We expect the United Kingdom to respect its engagements – both when it comes to our, already ratified, Withdrawal Agreement, and to the precise content of the Political Declaration, which remains and will remain the basis and the framework for our negotiation.
>
> If this is the case, and if we keep our mutual respect, our serenity and our determination, I have no doubt that we will find, in the course of the summer or by early autumn at the latest, a landing zone between the United Kingdom and the European Union. Then, finally, we will reach an agreement on our partnership for the future.

Mewn **araith ar 10 Mehefin** gerbron Sesiwn Lawn Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop, dywedodd Michel Barnier 'nad oes angen' newid mandad yr Undeb Ewropeaidd ac na all yr Undeb Ewropeaidd 'ganiatáu, ac na fydd yn caniatáu' i'r Deyrnas Unedig ddewis rhannau fel y dymuna o gynnig yr Undeb Ewropeaidd.

## Diogelu data

Mewn digwyddiad ar 24 Mehefin, dyfynnwyd Comisiynydd Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, Didier Reynders, gan **Euronews** yn nodi y bydd yr Undeb Ewropeaidd yn disgwyl i'r Deyrnas Unedig gymhwyso ei reolau diogelu data yn 'briodol' yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn aros am **benderfyniad cywerthedd data** gan Gomisiwn yr Undeb Ewropeaidd.

Mae hyn yn ofynnol gan yr Undeb Ewropeaidd gan drydydd wladwriaethau cyn cydweithredu mewn rhai meysydd, gan gynnwys cydweithredu o ran yr heddlu a'r farnwriaeth.

### Senedd Ewrop

Ar 18 Mehefin, mabwysiadodd Senedd Ewrop **benderfyniad** i ategu adroddiad o argymhellion ar gyfer y trafodaethau. Mae'n amlinellu gofid ASEau na wnaed unrhyw gynnydd gwirioneddol a bod y gwahaniaethau rhwng y ddwy ochr yn parhau i fod yn sylweddol, gan ailadrodd 'cefnogaeth lawn a diwyro' i Brif Drafodwr Senedd yr Undeb Ewropeaidd, Michel Barnier. **Rhoddodd sawl ASE wybod** mewn dadl cyn y bleidlais ar 17 Mehefin na fyddant yn cefnogi cytundeb 'ar unrhyw gost'.

## Gweithredu'r Cytundeb Ymadael

Cynhaliwyd ail gyfarfod Cyd-bwyllgor y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, sy'n goruchwylio'r gwaith o weithredu'r Cytundeb Ymadael, ar 12 Mehefin. Mewn **datganiad gan Gomisiwn yr Undeb Ewropeaidd** yn dilyn y cyfarfod, dywedir bod 'awyrgylch da iawn' yn y cyfarfod, ond cydnabyddir bod gan y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd 'lawer o waith i'w wneud o hyd.' Tynnwyd sylw arbennig at y mesurau gweithredol sydd eu hangen i roi Protocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon ar waith. Mae'r Comisiwn o'r farn nad yw **Papur Gorchymyn Llywodraeth y Deyrnas Unedig** ar y pwnc 'yn darparu digon o fanylion gweithredol'. Trafodwyd cynnydd ar hawliau dinasyddion hefyd, gyda'r Undeb Ewropeaidd wedi cymryd mesurau i annog 27 Aelod-wladwriaeth unigol yr Undeb Ewropeaidd i ddechrau eu prosesau ymgeisio ar gyfer y cynllun preswylio'n sefydlog i ddinasyddion y Deyrnas Unedig. Mabwysiadodd y Cyd-bwyllgor ei benderfyniad ffurfiol cyntaf hefyd, sef gwneud cywiriadau technegol i 'fân ddiffygion a hepgoriadau' yn y Cytundeb Ymadael.

Ar 17 Mehefin, ysgrifennodd Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi **at Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn**, Michael Gove, yn beirniadu Llywodraeth y Deyrnas Unedig am yr hyn y mae'n ei ddisgrifio fel 'diffyg tryloywder ac atebolrwydd' mewn perthynas â gwaith y Cyd-bwyllgor. Mae'r llythyr yn disgrifio'n fanwl sut mae'r Pwyllgor yn ddibynnol ar ddogfennaeth a gyhoeddwyd gan yr Undeb Ewropeaidd er mwyn deall gwaith y Cyd-bwyllgor a'i chwe Phwyllgor Arbenigol, ac mae'n disgrifio'r sefyllfa hon fel un 'anffodus.'

# 3. Datblygiadau yn y Deyrnas Unedig

## Trafodaethau rhyngwladol

Parhaodd y Deyrnas Unedig â thrafodaethau gyda'r Unol Daleithiau, dechreuwyd trafodaethau masnach â Japan a chyhoeddwyd amcanion negodi ar gyfer cytundebau ag Awstralia a Seland Newydd. **Rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol Liz Truss dystiolaeth** am y trafodaethau i Bwyllgor Masnach Ryngwladol Tŷ'r Cyffredin ar 24 Mehefin. **Ysgrifennodd yr un Pwyllgor** at yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud cynigion ar waith craffu Tŷ'r Cyffredin ar gytundebau rhyngwladol ar 18 Mehefin.

### Unol Daleithiau America

Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Ffyrdd a Dulliau Tŷ'r Cynrychiolwyr ar 17 Mehefin, **dywedodd Cynrychiolydd Masnach yr Unol Daleithiau, Robert Lighthizer,** na wnaiff yr Unol Daleithiau gytuno ar gytundeb masnach gyda'r Deyrnas Unedig 'oni bai bod y wlad honno'n gostwng y rhwystrau i fewnforion cig yr Unol Daleithiau y mae'r Unol Daleithiau o'r farn nad ydynt yn seiliedig ar wyddoniaeth gadarn'. Dywedodd ei bod yn annhebygol y deuir i gytundeb mewn pryd i'r Gyngres ei drafod eleni.

Adroddodd y ***Telegraph* ar 3 Mehefin** bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn barod i ganiatáu mewnforio cyw iâr wedi ei glorineiddio a chig eidion sy'n cael ei fwydo â hormonau o'r Unol Daleithiau fel rhan o gytundeb masnach rydd. Fodd bynnag, byddai 'tariff deuol' yn cael ei gymhwyso ar gynhyrchion nad ydynt yn cwrdd â safonau lles anifeiliaid y Deyrnas Unedig er mwyn lleihau'r effaith ar ffermwyr y Deyrnas Unedig drwy ei gwneud yn aneconomaidd i gynhyrchwyr yr Unol Daleithiau eu hallforio i'r Deyrnas Unedig. Cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol y Deyrnas Unedig dros Fasnach Ryngwladol, Liz Truss, ac Ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, George Eustice, **lythyr ar y cyd ar 5 Mehefin** yn ymateb i'r adroddiadau. Dywedir yn y llythyr na fydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyfaddawdu ar ei safonau uchel o ran yr amgylchedd, diogelwch bwyd na lles anifeiliaid.

### Japan

Dechreuodd rownd gyntaf y trafodaethau ar gyfer cytundeb masnach rydd rhwng y Deyrnas Unedig a Japan ar 9 Mehefin. Mewn araith i gyhoeddi dechrau'r trafodaethau, **dywedodd Liz Truss** bod y ddwy ochr yn 'rhannu awydd i weld

y cytundeb hwn mewn grym erbyn diwedd y Cyfnod Pontio, os yn bosibl'. Cyhoeddwyd **amcanion negodi** Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar 13 Mai. Mae'r amcanion negodi yn amcangyfrif y gallai cytundeb y Deyrnas Unedig a Japan gynyddu cynnyrch domestig gros y Deyrnas Unedig yn y tymor hir (15 mlynedd) oddeutu 0.07 y cant a gwerth ychwanegol gros Cymru rhwng 0.05 y cant a 0.15 y cant.

**Dywedodd prif drafodwr Japan, Hiroshi Matsuura, wrth y *Financial Times*** bod yn rhaid cwblhau trafodaethau erbyn diwedd mis Gorffennaf er mwyn i senedd Japan gadarnhau'r cytundeb erbyn diwedd y flwyddyn. Dywedodd fod 'y prinder amser yn golygu y bydd yn rhaid i'r ddwy ochr gyfyngu ar eu huchelgeisiau.'

### Awstralia a Seland Newydd

**Cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig** amcanion negodi ar gyfer trafodaethau masnach ag Awstralia a Seland Newydd ar 17 Mehefin gan ddweud y byddai'r trafodaethau yn dechrau'n fuan. Mae dadansoddiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn awgrymu y gallai cytundeb rhwng y **Deyrnas Unedig ac Awstralia** gynyddu cynnyrch domestig gros y Deyrnas Unedig rhwng 0.01% a 0.02% (£200 miliwn neu £500 miliwn) dros y tymor hir. Effaith ragamcanol cytundeb gyda **Seland Newydd** ar gynnyrch domestig gros y Deyrnas Unedig yn y tymor hir yw 0%. Ailddatganodd y Llywodraeth ei diddordeb mewn ymuno â'r **Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer ardal masnach rydd Partneriaeth y Môr Tawel**.

## Deddfwriaeth y Deyrnas Unedig

### Y Bil Amaethyddiaeth

Cafodd y **Bil Amaethyddiaeth** ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 10 Mehefin. Yn dilyn gwelliannau'r Llywodraeth yn Nhŷ'r Cyffredin, cyflwynodd Llywodraeth Cymru **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** atodol ar gyfer y Bil ar 11 Mehefin.

Nodir yn y Memorandwm bod gan Lywodraeth Cymru bryderon o hyd ynghylch "pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud is-ddeddfwriaeth o ran adnabod ac olrhain anifeiliaid (cymal 32) a rheoleiddio cynnyrch organig (cymalau 36 a 37) ac oherwydd y diffyg gofynion priodol i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru o dan amgylchiadau penodol."

## Y Bil Pysgodfeydd

Cynhaliwyd cam adrodd y **Bil Pysgodfeydd** yn Nhŷ'r Arglwyddi rhwng 22 a 24 Mehefin. **Trechwyd** Llywodraeth y Deyrnas Unedig sawl gwaith fel bod y Bil:

- yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd pysgodfeydd a dyframaeth drwy roi blaenoriaeth i gynaliadwyedd amgylcheddol a gwneud cynaliadwyedd yn brif amcan pysgodfeydd wyth amcan y Bil (**Gwelliant 2**);
- yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori ar 'ofyniad glanio cenedlaethol' a sefydlu'r gofyniad hwnnw i sicrhau bod isafswm canran y pysgod sy'n cael eu dal yn nyfroedd y Deyrnas Unedig gan longau domestig a thramor yn cael eu glanio mewn porthladdoedd yn y Deyrnas Unedig, Ynys Manaw, Guernsey neu Jersey (**Gwelliant 22**);
- yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol sefydlu cwota lleiaf o gyfleoedd pysgota ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r sector a chychod pysgota hyd at 10 metr o hyd, a fydd yn cael eu hadolygu'n flynyddol, gyda datganiadau wedi eu cyflwyno gerbron y senedd (**Gwelliant 29**);
- yn ei gwneud yn ofynnol i bob cwch pysgota dros 10 metr o hyd sy'n pysgota yn nyfroedd y Deyrnas Unedig ddefnyddio monitro electronig o bell ar gyfer eu gweithgareddau pysgota, a bod cynlluniau'n cael eu cyhoeddi i ymestyn hyn i bob cwch (**Gwelliant 52**).

Trefnwyd trydydd darlleniad ar gyfer **1 Gorffennaf**.

## Bil yr Amgylchedd 2019-21

Cyflwynwyd **cynnig rhaglen** ar 22 Mehefin mewn perthynas â **Bil yr Amgylchedd**. Ar 18 Mehefin, cynghorodd Ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, **George Eustice,** Bwyllgor Archwilio Amgylcheddol Tŷ'r Cyffredin nad yw'r Bil yn debygol o ddychwelyd i'r Senedd tan ar ôl toriad yr haf. Yng Nghymru, mae **Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig** a **Phwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** y Senedd wedi bod yn trafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

## Y Bil Masnach

Adroddodd Pwyllgor Bil Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ar y **Bil Masnach** ar 25 Mehefin heb wneud gwelliannau. Nid yw'r dyddiad ar gyfer y cam adrodd wedi ei gyhoeddi eto. Yng Nghymru, mae **Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** a **Phwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** y Senedd wedi bod yn trafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Llywodraeth Cymru.

## Biliau Eraill

Cyrhaeddodd y **Bil Cyfraith Ryngwladol Breifat (Gweithredu Cytundebau)** ei Gam Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 17 Mehefin. Cafodd Cymal 2, a fyddai wedi creu pŵer dirprwyedig newydd i weithredu rhai cytundebau cyfraith ryngwladol breifat gan ddefnyddio is-ddeddfwriaeth, ei **ddileu drwy welliant**. Roedd hyn yn dilyn galwadau eang i gael gwared ar Gymal 2, gan gynnwys gan dri o bwyllgorau Tŷ'r Arglwyddi. Mae trydydd darlleniad **wedi ei drefnu ar gyfer 29 Mehefin**.

Adroddodd Pwyllgor Bil Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ar y **Bil Mewnfudo** ar y Bil heb gynnig gwelliannau. Nid yw'r dyddiad ar gyfer y cam adrodd wedi ei gyhoeddi eto.

Cwblhaodd y **Bil Estraddodi (Arestio Dros Dro)** ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi. Byddai'r Bil yn galluogi'r heddlu i arestio unigolyn o 'diriogaeth categori 2' benodol heb warant gan farnwr yn y Deyrnas Unedig. Mae'n nodi mai'r gwledydd hyn yw Awstralia, Canada, Liechtenstein, Seland Newydd, y Swistir ac Unol Daleithiau America, ac mae'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol newid y rhestr. Cytunodd Tŷ'r Arglwyddi ar welliant i'w gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol fodloni rhai gofynion, gan gynnwys ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig, cyn gwneud rheoliadau i newid y rhestr o diriogaethau. Fe wnaethant hefyd gytuno ar welliant i sicrhau mai dim ond un diriogaeth newydd y gellid ei hychwanegu at y rhestr gyda phob set o reoliadau. Nod y gwelliant hwn oedd caniatáu i'r Senedd wrthod tiriogaeth benodol. Mae'r Bil wedi ei drosglwyddo i Dŷ'r Cyffredin erbyn hyn a chafodd ei ail ddarlleniad yno ar 22 Mehefin.

Cwblhaodd y **Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol** ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin ar 23 Mehefin, gyda rhai gwelliannau gan y Llywodraeth. Bydd yn awr yn pasio i Dŷ'r Arglwyddi.

Cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig wybodaeth am **newidiadau arfaethedig i reoleiddio gwasanaethau ariannol** ar 23 Mehefin. Disgwylir Bil Gwasanaethau Ariannol eleni.

## Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi

Adroddodd Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi ar **Ddeddfwriaeth Brexit: Materion Cyfansoddiadol** ar 9 Mehefin. Canfu'r Pwyllgor bod 'llawer o'r pwerau yn y biliau Brexit yn rhy eang' ac mae'n mynegi pryder nad yw pwerau mewn biliau Brexit yn ddarostyngedig i'r un broses hidlo â phwerau yn Neddf

yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). Daw'r Pwyllgor i'r casgliad hefyd ei bod yn 'resyn na chyflawnwyd caniatâd deddfwriaethol ar gyfer llawer o'r biliau Brexit'. Mae'n argymell bod y Pwyllgor Gweithdrefnau yn trafod 'sut gellid rhoi mwy o amlygrwydd i gydsyniad deddfwriaethol yn y broses ddeddfwriaethol yn San Steffan' ac y dylai pwerau i weinidogion y Deyrnas Unedig wneud deddfwriaeth ddirprwyedig mewn meysydd datganoledig 'gynnwys gofyniad naill ai i ymgynghori â gweinidogion datganoledig neu i geisio eu cydsyniad'.

## Parodrwydd

Ar 12 Mehefin, **cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig** y bydd rheolaethau ffiniau ar gyfer nwyddau'r Undeb Ewropeaidd sy'n cael eu mewnforio i Brydain yn cael eu cyflwyno ar ddiwedd y cyfnod pontio fesul cam er mwyn 'rhoi rhagor o amser i fusnesau y mae coronafeirws yn effeithio arnynt i wneud paratoadau'.

O dan gynlluniau Llywodraeth y Deyrnas Unedig, bydd rheolaethau ffiniau newydd yn cael eu cyflwyno mewn tri cham hyd at fis Gorffennaf 2021:

1. **O fis Ionawr 2021:** Bydd angen i fasnachwyr sy'n mewnforio nwyddau safonol, sy'n cynnwys popeth o ddillad i nwyddau electronig, baratoi ar gyfer gofynion tollau sylfaenol, fel cadw cofnodion digonol o nwyddau wedi eu mewnforio, a bydd ganddynt hyd at chwe mis i gwblhau datganiadau tollau. Er y bydd angen talu tariffau ar bob mewnforiad, gellir gohirio taliadau nes bod y datganiad tollau wedi ei wneud. Bydd gwiriadau ar nwyddau rheoledig fel alcohol a thybaco. Bydd angen i fusnesau hefyd ystyried sut maent yn cyfrif am TAW ar nwyddau a fewnforir. Bydd gwiriadau corfforol hefyd yn y gyrchfan neu mewn adeilad cymeradwy arall ar bob anifail a phlanhigyn byw risg uchel.
2. **O fis Ebrill 2021:** Bydd angen rhaghysbysu'r holl gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid - er enghraifft cig, bwyd anifeiliaid anwes, mêl, llaeth neu gynhyrchion wyau - a'r holl blanhigion a chynhyrchion planhigion rheoledig, ynghyd â dangos y ddogfennaeth iechyd berthnasol.
3. **O fis Gorffennaf 2021:** Bydd yn rhaid i fasnachwyr sy'n symud yr holl nwyddau wneud datganiadau wrth fewnforio, a thalu tariffau perthnasol. Bydd angen datganiadau Diogelwch a Diogeledd llawn, ond yn achos nwyddau Glanweithdra a Ffytoiechydol bydd cynnydd mewn gwiriadau corfforol a chymryd samplau: bydd gwiriadau am anifeiliaid, planhigion a'u cynhyrchion yn awr yn cael eu cynnal ym Mannau Rheoli Ffiniau Prydain.

**Adroddodd y BBC ar 12 Mehefin** bod yr Undeb Ewropeaidd wedi dweud y byddai'n gweithredu gwiriadau llawn ar allforion y Deyrnas Unedig i'r Undeb Ewropeaidd pan ddaw'r cyfnod pontio i ben.

Roedd y cyhoeddiad ar 12 Mehefin hefyd yn cynnwys ymrwymiad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i adeiladu cyfleusterau newydd ar y ffin ym Mhrydain er mwyn cynnal gwiriadau rheoliadol fel gwiriadau Glanweithdra a Ffytoiechydol. Nodir yn y cyhoeddiad, os nad oes lle mewn porthladdoedd ar gyfer seilwaith newydd, y bydd y Llywodraeth yn adeiladu safleoedd newydd draw o'r ffin lle gellir cynnal gwiriadau. Dywed ymhellach fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymgynghori â phorthladdoedd ledled y Deyrnas Unedig i gytuno pa seilwaith sy'n ofynnol.

## Cronfa Ffyniant Gyffredin

Ar 9 Mehefin, **ysgrifennodd cadeiryddion y Pwyllgor Materion Cymreig a thri Phwyllgor arall yn Nhŷ'r Cyffredin** at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i ofyn am wybodaeth am Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig. Disgwylir i'r Gronfa ddisodli cyllid strwythurol yr Undeb Ewropeaidd o fis Ionawr 2021. Mewn ymateb, **cadarnhaodd y Gweinidog Simon Clarke** y byddai penderfyniadau ynghylch y Gronfa yn cael eu gwneud drwy adolygiad gwariant gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn ddiweddarach eleni. Dywedodd y byddai penderfyniadau ynghylch gweinyddu'r Gronfa yn cael eu gwneud yn dilyn yr adolygiad o wariant.

## Cysylltiadau Rhynglywodraethol

**Cyfarfu'r Cyd-bwyllgor Gweinidogol (Trafodaethau Ewropeaidd)** ddiwedd mis Mai am y tro cyntaf ers mis Ionawr.

Mewn datganiad ar ôl y cyfarfod, **dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd** bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi rhannu ei thestunau cyfreithiol drafft ar gyfer y berthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol, a'i phapur gorchymyn ar Brotocol Gogledd Iwerddon ac Iwerddon, lai na diwrnod cyn ei gyhoeddi. Galwodd am ragor o ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig ar y trafodaethau a'r cynnydd ar yr Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol.

**Ysgrifennodd Prif Weinidogion Cymru a'r Alban ar y cyd** at Brif Weinidog y Deyrnas Unedig ar 12 Mehefin i alw arno i ymestyn y cyfnod pontio yng ngoleuni pandemig y coronafeirws, 'er mwyn cael digon o gyfle i gyflawni'r trafodaethau, i roi'r canlyniad ar waith, a rhoi cyfle i'n busnesau sefydlogi ar ôl aflonyddwch enfawr y misoedd diwethaf.'

Mewn llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd a gweinidogion yr Alban ar 14 Mehefin, **dywedodd Canghellor Dugiaeth**

**Caerhirfryn, Michael Gove,** na fyddai'r Deyrnas Unedig yn ymestyn y cyfnod pontio oherwydd roedd hwnnw'n ymrwymiad maniffesto ac roedd wedi ei nodi yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael). Dywedodd ei fod yn 'siomedig' nad oedd gweinidogion Cymru a'r Alban wedi ymuno â chyfarfod gyda'r Tâl-feistr Cyffredinol ar 12 Mehefin a'i bod yn 'anghywir' dweud bod safbwyntiau'r llywodraethau datganoledig wedi cael eu diystyru cyn cael eu trafod. Nododd yr adegau roedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyfleu ei safbwynt i'r llywodraethau datganoledig a dywedodd y bu 'digon o gyfleoedd' i drafod y mater.

**Ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth yr Alban, Michael Russell**, at Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn ar 17 Mehefin. Yn y llythyr nodir cyfres o alwadau a chynigion ar gyfer ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig mewn trafodaethau ar y berthynas yn y dyfodol, gan gynnwys y dylai'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r Undeb Ewropeaidd) dan gadeiryddiaeth Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn gwrdd ganol mis Gorffennaf a chyn un neu ddau o bwyntiau gwneud penderfyniadau allweddol eraill yn ystod y trafodaethau dros yr haf a chyn ac ar ôl pob rownd drafod a drefnwyd. Gelwir hefyd ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gadarnhau y bydd yn gofyn am y dewis i weinyddiaethau datganoledig barhau i gymryd rhan yn rhaglenni'r Undeb Ewropeaidd hyd yn oed pan nad yw'n gofyn i Loegr wneud hynny.

Cyflwynodd Llywodraeth yr Alban **Fil Ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad) (Yr Alban)** ar 18 Mehefin. Gwnaed hyn er mwyn galluogi Llywodraeth yr Alban i 'gadw golwg' ar ddatblygiadau yn yr Undeb Ewropeaidd drwy is-ddeddfwriaeth. **Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol** ym mis Chwefror bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â chyflwyno deddfwriaeth i'r perwyl hwn ym mis Chwefror ac y byddai'n ceisio alinio â chyfraith yr Undeb Ewropeaidd mewn ffyrdd eraill lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol.

# 4. Datblygiadau yng Nghymru

## Trafodaethau ynghylch y berthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol

Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 2 Mehefin, **dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd:**

> ... essentially, the UK Government is fundamentally uninterested.

Mewn datganiad ar 3 Mehefin ar gyfarfod y Cyd-bwyllgor Gweinidogol (Negodiadau'r Undeb Ewropeaidd) ddiwedd mis Mai, **dywedodd y Cwnsler Cyffredinol** bod y llywodraethau datganoledig wedi cael testunau cyfreithiol drafft y Deyrnas Unedig ddiwrnod yn unig cyn iddynt gael eu cyhoeddi, a bod hyn yn 'gwbl annerbyniol'. Dywedodd bod Llywodraeth Cymru yn "anghytuno'n sylfaenol" â dull Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

> Gan fod gennym gyfrifoldeb dros weithredu llawer o agweddau ar y berthynas yn y dyfodol, rydym wedi datgan dro ar ôl tro, fod angen i Lywodraeth y DU a'r UE gael sicrwydd y gellir gweithredu beth bynnag fydd yn deillio o'r trafodaethau yn y pen draw ar draws pob rhan o'r DU.

**Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor** at Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn ar 9 Mehefin i alw am i'r llywodraethau datganoledig chwarae rhan 'ystyrlon' yn y trafodaethau drwy 'gysylltiadau rhynglywodraethol cadarn a strwythuredig o fewn y Deyrnas Unedig'. **Ymatebodd Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn** i lythyr y Pwyllgor ar 21 Mehefin. Nodir yn y llythyr, er bod cysylltiadau rhyngwladol yn fater a gedwir yn ôl, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn parhau i fod yn ymrwymedig i ymgysylltu'n rheolaidd â'r llywodraethau datganoledig ynghylch y trafodaethau.

## Trafodaethau rhyngwladol

**Rhoddodd y Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg dystiolaeth** i'r Pwyllgor ar 16 Mehefin. Dywedodd nad oedd y concordat ar gyfer masnach ryngwladol rhwng y Deyrnas Unedig a Llywodraethau datganoledig wedi ei arwyddo eto. Fodd bynnag, dywedodd:

> Mae Llywodraeth Prydain yn actio, mwy neu lai, fel petai'r concordat yn ei le yn barod. So, eisoes, mae trafodaeth gyda Gweinidogion yn digwydd yn rheolaidd. O ran y *Trade Bill*, maen nhw wedi addo i ni nawr y bydd *dispatch box commitment* fydd, mwy neu lai, yn dweud beth rŷn ni'n disgwyl ei weld yn y concordat. [...]
>
> Wel, beth rŷn ni wedi bod yn pwyso amdano yw bod yna rôl i Gymru, o

> ran *pre-negotiations*; beth sy'n digwydd os nad ŷm ni'n cytuno — beth yw'r *dispute mechanism* — bod yna fforwm yn cael ei sefydlu ar gyfer masnach; bod yna fanylion ynglŷn â sut rŷn ni'n rhannu gwybodaeth. Felly, mae hynny i gyd, mwy neu lai, yn digwydd. Felly, o ran hynny, rŷn ni'n eithaf cyfforddus.
>
> Yr unig beth sydd ar ôl i ni gytuno arni yw beth yw'n rôl ni yn y trafodaethau eu hunain.

Dywedodd fod yr ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar **drafodaethau gyda'r Unol Daleithiau** wedi bod yn 'gadarnhaol iawn'. Rhannwyd mandadau drafft gyda Llywodraeth Cymru i gael sylwadau ganddi ar yr un pryd ag adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ac roedd hi wedi cyfarfod â Gweinidog Polisi Masnach newydd y Deyrnas Unedig, Greg Hands. Amlinellodd flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a dywedodd y byddai Llywodraeth Cymru yn dwyn Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyfrif o ran yr ymrwymiadau a wnaeth ar safonau bwyd. Dywedodd y Gweinidog, pe bai dileu tariffau llawn yn digwydd mewn meysydd fel amaethyddiaeth, y byddai Llywodraeth Cymru eisiau cael cyfnod pontio oherwydd byddai hyn 'yn cael effaith anghymesur ar Gymru.'

Yn ogystal, rhoddodd y Gweinidog dystiolaeth ar ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar **drafodaethau gyda Japan.** Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi trafod blaenoriaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac wedi gweld newidiadau i'r mandad negodi ar fater newid yn yr hinsawdd.

**Cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad** ar 18 Mehefin yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig am amcanion negodi ar gyfer cytundebau ag **Awstralia a Seland Newydd.** Dywedodd fod yr amcanion yn "fan cychwyn rhesymol" ond pwysleisiodd y "difrod y gellid cael ei wneud i'n sector bwyd-amaeth os nad yw'r cytundeb yn cael ei drafod er budd y DU gyfan."

Mewn **llythyr at y Pwyllgor ar 5 Mehefin**, dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn parhau i weithio ar ei **Rhaglen Parhad Masnach** yn ystod y pandemig, ond ei bod yn 'annhebygol iawn' y byddai pob cytundeb yn cael ei drosglwyddo erbyn 31 Rhagfyr. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog ei bod yn 'arbennig o bryderus' na fyddai cytundebau parhad â Thwrci a Chanada yn cael eu cyrraedd, o bosibl.

Darparodd y Pwyllgor **dystiolaeth i is-bwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi** ynghylch craffu ar gytundebau rhyngwladol.

## Gweithredu'r Cytundeb Ymadael

Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 2 Mehefin, **dywedodd y Cwnsler Cyffredinol**

**a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd** y bu 'trafodaethau' rhynglywodraethol ar weithredu'r Cytundeb Ymadael, ond nad oedd y rhain wedi bod yn 'ronynnog'.

## Protocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon

**Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol** y cytunwyd ar lif gwaith ar y cyd ar **weithredu Protocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon** yng nghyfarfod mis Ionawr y Cyd-bwyllgor Gweinidogol (Negodiadau'r Undeb Ewropeaidd), ond nad oedd hyn wedi ei roi ar waith. **Gofynnodd y Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth yr Alban, Michael Russell,** bod y llif gwaith ar y cyd yn dechrau ar fyrder yn eu llythyr at Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn ar 17 Mehefin.

Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol fod **papur gorchymyn** Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar weithredu'r Protocol wedi gadael cwestiynau heb eu hateb, a dywedodd nad oedd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i 'lunio asesiad o'r effaith ar economi Cymru'.

Yn ei ddatganiad ar gyfarfod y Cyd-bwyllgor Gweinidogol (Negodiadau'r Undeb Ewropeaidd), **dywedodd y Cwnsler Cyffredinol** bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi rhannu ei phapur gorchymyn "oriau" yn unig cyn ei gyhoeddi. Galwodd ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddarparu "eglurder ar frys ynghylch goblygiadau'r protocol ar borthladdoedd Cymru ac ar fusnesau yng Nghymru."

## Parodrwydd

Yn ei ddatganiad ar gyfarfod y Cyd-bwyllgor Gweinidogol (Negodiadau'r Undeb Ewropeaidd), **dywedodd y Cwnsler Cyffredinol** ei fod yn croesawu'r "broses o rannu gwybodaeth am rai o'r prosiectau y mae Llywodraeth y DU wedi'u sefydlu erbyn diwedd y cyfnod pontio." Dywedodd na ddylid colli rhagor o amser, a galwodd ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i "gydnabod pwysigrwydd sefydlu cydweithio effeithiol ar faterion parodrwydd gan adeiladu ar y dull gweithredu a oedd ar waith yn ystod y gwaith cynllunio ar gyfer "dim cytundeb"."

Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 2 Mehefin, **dywedodd y Cwnsler Cyffredinol** bod Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio ar sail dwy senario posibl: Brexit heb gytundeb masnach, a chytundeb cyfyngedig. Dywedodd er bod "rhywfaint wedi bod yn digwydd ar lefel portffolio, ble mae'r perthnasau yn weddol," nid yw hynny wedi bod yn digwydd "ar lefel ganolog drwy'r *Cabinet Office* ers mis Ionawr."

Holodd y Pwyllgor y Cwnsler Cyffredinol hefyd ynghylch parodrwydd busnesau.

Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol nad oedd nad oedd 'yn hyderus o bell ffordd' y buasai busnesau busnesau'n gallu paratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio.

## Fframweithiau cyffredin a chytundebau rhynglywodraethol

### Fframweithiau cyffredin

Ar 2 Mehefin, holodd y Pwyllgor y Cwnsler Cyffredinol ynghylch hynt y rhaglen fframweithiau cyffredin ac effaith COVID-19. **Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:**

> it's essentially impossible to deliver the common frameworks programme in the way that it was originally envisaged by the end of this year.

Dywedodd fod y llywodraethau wedi penderfynu pa fframweithiau fyddai'n cael eu blaenoriaethu a'i fod yn disgwyl y bydd:

- **dau neu dri fframwaith blaenoriaeth** yn cael eu cyflwyno i ddeddfwrfeydd ar gyfer gwaith craffu erbyn diwedd y flwyddyn;
- **fframweithiau blaenoriaeth eraill** yn cael eu cytuno fel fframweithiau amlinellol gan y Cyd-bwyllgor Gweinidogol (Negodiadau'r Undeb Ewropeaidd) erbyn diwedd y flwyddyn, ar gyfer craffu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn 2021;
- **trefniadau dros dro** i'w rhoi ar waith ar gyfer meysydd fframwaith eraill. Gallai'r rhain gynnwys 'llinell amser ar gyfer datrys, mecanwaith ar gyfer datrys anghydfodau, mecanwaith ar gyfer rheoli gwahaniaethau, o bosibl, a datganiad o bwrpas cyffredinol ar gyfer pob un o'r meysydd hynny'.

Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol hefyd fod gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig gynlluniau i ddeddfu ar farchnad fewnol y Deyrnas Unedig, a chododd bryderon ynghylch y goblygiadau i'r setliad datganoli:

> Currently, the UK Government's preference is for there to be a statutory underpinning to aspects of the internal market, rather than a kind of framework-based, economic co-operation-based approach, which is our preference. And the risk there, I think—and it's a risk that we all need to focus on—is that one of their current proposals is a sort of mutual recognition principle, so that goods put on the market in any parts of the UK, compliant with local regulatory environment, would be required to be accepted in any part of the UK.

Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol, yn yr achos hwn 'y gallwch chi ddychmygu'n hawdd, er bod ein hawliau i reoleiddio'n wahanol o dan y setliad datganoledig yn cael eu gwarchod yn dechnegol ac yn gyfreithiol, y rheidrwydd economaidd, ledled y Deyrnas Unedig, fyddai cynhyrchu i'r safon is, sy'n bwrw amheuaeth ar bwrpas y pwerau hynny sydd gennym'. Dywedodd fod hwn yn 'gwestiwn sylfaenol

am natur y setliad datganoledig a sut mae hynny'n berthnasol i'r economi'.

Mewn llythyr at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 11 Mehefin, **dywedodd y Prif Weinidog** bod Llywodraeth Cymru yn parhau'n ymrwymedig i'r rhaglen fframweithiau. O ran craffu ar fframweithiau, dywedodd:

> mae'r Fframweithiau Cyffredin yn destun negodiadau rhynglywodraethol ac nid gan Lywodraeth Cymru y mae'r gair olaf, o bell ffordd, ar eu ffurf a'u cynnwys.
>
> [...]
>
> Felly, er y bydd modd i'r Senedd a'r deddfwrfeydd gynnig diwygiadau neu newidiadau i'r fframweithiau, gallai fod yn anodd i ddiwygiadau a argymhellir gan un ddeddfwrfa yn unig gael eu derbyn. Ymddengys yn briodol, felly, bod y deddfwrfeydd yn cydweithio wrth graffu ar Fframweithiau drafft, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol.

## Cytundebau rhynglywodraethol

Yn ei lythyr at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 11 Mehefin, **dywedodd y Prif Weinidog** y byddai'n well gan Lywodraeth Cymru "beidio â throi at y math hwn o gytundeb rhynglywodraethol" o ran defnyddio pwerau mewn deddfwriaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud hyn ar gyfer Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), Deddf Gofal Iechyd (Yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) a'r Bil Amaethyddiaeth, ac mae'n bwriadu gwneud yr un peth ar gyfer y Bil Pysgodfeydd.

Dywedodd:

> [...] lle nad yw Llywodraeth y DU yn barod i gytuno ar gynnwys darpariaethau o'r fath ar wyneb ei Biliau, mae dewis anodd yn wynebu Llywodraeth Cymru. Ar un llaw, gallem argymell nad yw'r Senedd yn cydsynio i Fil y DU, gan arwain at risg glir y bydd Llywodraeth y DU yn gwahodd Senedd y DU i anwybyddu'r diffyg cydsyniad hwn, gan danseilio confensiwn Sewel ymhellach. Ar y llaw arall, gallem ystyried atebion nad ydynt yn rhai deddfwriaethol, megis cytundeb rhynglywodraethol i alluogi argymhelliad bod y Senedd yn cydsynio i Fil. Yn yr amgylchiadau cyfansoddiadol a gwleidyddol presennol, gyda Llywodraeth sydd â chryn fwyafrif yn Nhŷ'r Cyffredin, ac yn wyneb yr heriau sylweddol sy'n codi o ran polisi a deddfwriaeth yn sgil ymadael a'r UE, mae'n debygol mai'r ail opsiwn hwn a ffefrir gennym mewn rhai achosion.

Dywedodd y Prif Weinidog nad oedd gan gytundebau rhynglywodraethol ar ddeddfwriaeth "nodweddion defnyddiol" fel y rhaglen fframweithiau cyffredin, gydag "amserlenni cywasgedig" ac "anghydweld o ran y safbwyntiau negodi".

Dywedodd y byddai Llywodraeth Cymru yn “rhoi gwybod yn gynnar” am yr angen am drafodaethau a’u blaenoriaethau lle bo hynny’n bosibl, ac mai ei nod “bob amser” fyddai cyflwyno’r cytundeb terfynol er mwyn llywio’r penderfyniad ynghylch cydsyniad deddfwriaethol.

## Deddfwriaeth

Ar 2 Mehefin, **holodd y Pwyllgor y Cwnsler Cyffredinol** ynghylch deddfu ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Dywedodd nad oedd yn bosibl gwybod faint o ddeddfwriaeth fyddai ei hangen nes bod telerau’r berthynas â’r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol yn hysbys. Roedd yn disgwyl y byddai angen tua 500 o offerynnau statudol ar gyfer diwedd y cyfnod pontio, heb gyfrif am ddeddfwriaeth sydd ei hangen i weithredu cytundebau â’r Undeb Ewropeaidd neu’n rhyngwladol yn y dyfodol. Ni fyddai pob un o’r offerynnau statudol hynny mewn meysydd datganoledig. Bu Pwyllgorau’r Senedd hefyd yn trafod Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar Filiau Brexit Senedd y Deyrnas Unedig (gweler uchod, adran 3.2).